Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/LG/0047/11

Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Ionawr 2012

Annwyl Rosemary,

**Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2012**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) i rym yng Nghymru. Rhaid i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 12 Ionawr 2012.

Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, yng Nghymru, ddarpariaethau Penderfyniad y Comisiwn 2011/884/EU, a gyhoeddwyd yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 23 Rhagfyr 2011. Mae'r Rheoliadau hyn yn atgyfnerthu cyfyngiadau sydd eisoes yn bodoli ar draws yr UE, sydd â'r nod o osgoi mewnforio reis a chynhyrchion reis o Tsieina i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid os ydynt yn cynnwys Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMOs) anawdurdodedig. Rhaid i'r ddeddfwriaeth ddomestig sy'n gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2011/884/EU fod ar waith ar 12 Ionawr 2012.

Ar 12 Chwefror 2008, cytunodd Pwyllgor Sefydlog y CE ar Fesurau Brys o ran 'Bt63', sef organedd anawdurdodedig a addaswyd yn enetig mewn cynhyrchion reis o Tsieina. Daeth y mesurau i rym ar 15 Ebrill 2008 ac maent yn gofyn i warantu bod yr holl fewnforion o'r fath yn rhydd o Bt63 cyn iddynt ddod i'r UE.

O ganlyniad i hysbysiadau parhaus am Bt63 mewn cynhyrchion reis o Tsieina a chan fod amrywiaethau anawdurdodedig eraill o reis o Tsieina wedi eu canfod mewn rhai cynhyrchion, cytunwyd ar draws yr UE y dylid atgyfnerthu'r mesur brys.

Mae'r Undeb Ewropeaidd felly wedi mabwysiadu sawl diwygiad i'r mesurau cyfredol. Fel y nodwyd uchod, ar 23 Rhagfyr 2011, cyhoeddwyd Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/884/EU, dyddiedig 22 Rhagfyr 2011, ar fesurau brys o ran reis a addaswyd yn enetig anawdurdodedig mewn cynhyrchion reis sy'n dod o Tsieina. Roedd y Penderfyniad hwn yn diddymu Penderfyniad 2008/289/EC, yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Bydd y Penderfyniad brys yn mynnu bod llwythi o reis a chynhyrchion reis sy'n deillio o, neu wedi'u hanfon o Tsieina, i'w mewnforio i'r UE yn dod gydag adroddiad dadansoddol yn cadarnhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddeunydd reis GM, a hwnnw'n seiliedig ar ddull profi penodol a thystysgrif iechyd wedi'i gwirio gan gynrychiolydd awdurdodedig o awdurdod mewnforio/allforio Tsiena. Rhaid i lwythi heb y ddogfennaeth ofynnol gael eu hanfon yn ôl i wlad y tarddiad neu gael eu dinistrio. Bydd y llwythi sydd â'r ddogfennaeth ofynnol yn destun samplo a dadansoddi gan Awdurdodau Gorfodi. Rhaid cael canlyniadau boddhaol cyn bod modd eu rhyddhau i'w dosbarthu.

Rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdodau gorfodi y pwerau angenrheidiol er mwyn cynnal y rheolaethau ychwanegol sy'n ofynnol gan Benderfyniad y Comisiwn 2011/884/EU ac er mwyn osgoi saib yn y rheolaethau mewnforio rhwng diddymu'r rheolaethau cyfredol a gweithredu'r Penderfyniad newydd a'r risg cysylltiedig fod bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys GMO's anawdurdodedig yn dod i'r DU ac yn cael eu rhyddhau i'w dosbarthu o fewn yr UE.

Disgwylir i Reoliadau cyfatebol ddod i rym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon heb fod yn hwyrach na 12 Ionawr 2012, gan fod y Penderfyniad brys yn pennu y dylent gael eu rhoi ar waith yn yr Aelod-wladwriaethau ar y dyddiad hwnnw.

Dyma'r rheswm pam fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi pennu y dylai'r Rheoliadau ddod i rym yng Nghymru ar 12 Ionawr 2012, yn unol â gweddill y DU.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi, a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau hyn, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Jane

**Jane Hutt AC**

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ